

## Y Lolfa'n troi'n wyrdd



Paul Williams, Rheolwr Cynhyrchu'r Lolfa, gyda'r uned *biomass* newydd fydd yn gwresogi adeiladau'r wasg.

Mae gwasg Y Lolfa wedi penderfynu arwain y ffordd mewn ynni gwyrdd trwy osod system *biomass* i mewn ar gyfer gwresogi holl swyddfeydd y cwmni ac hefyd y ddau warws mawr yn y cefn. Bydd yr uned, sy'n costio bron i £100,000, yn bwydo 30 o reiddiaduron trwy ddŵr tra bydd awyr cynnes yn dod ohoni i reoli tymheredd y stoc bapur a'r llyfrau.

Meddai Paul Williams, Rheolwr Cynhyrchu'r Lolfa, a fu'n gyfrifol am archebu a rheoli'r system: "Un o'r rhesymau dros gael *biomass* yw bod pris trydan a nwy wedi codi cymaint yn ddiweddar. Bydd y system newydd yn llawer rhatach, ond hefyd yn wyrdd ac yn garedig i'r amgylchfyd: mae'n *carbon neutral*."

"Fe gawson ni banelau haul i mewn ddwy flynedd yn ôl, ac er nad oedd y blyneddoddd yna'n rhai arbennig o heulog, fe gynhyrchodd gwerth £8,000 y flwyddyn o drydan i ni trwy dariff. Bydd wedi talu amdano'i hun mewn pum mlynedd arall. Mae'r system *biomass* yn cael ei noddi gan RHI – *Renewable Heat Initiative* – y llywodraeth, a bydd wedi talu amdano'i hun mewn wyth neu naw mlynedd."




Ellen ap Gwynn, arweinydd Cyngor Ceredigion, ynghyd â rhai trigolion lleol, yn edrych ar y cynlluniau newydd ar gyfer Gwasanaethau Cletwr. Gw. tudalen 2.

Mae hefyd yn rhwydd i'w reoli. Eglurodd Paul ei fod yn gallu cadw trac ar berfformiad y ddau system o'i gyfrifiadur. "Alla i weld yn union faint o ynni sy'n cael ei gynhyrchu bob dydd, a faint ry'n ni'n cael ein talu. A does 'na ddim gwaith cynnal a chadw: mae'r uned yn bwydo'i hun."

Gosodwyd y system *biomass*, fel y system ynni haul, i mewn gan gwmni Dulas o Fachynlleth. Daw'r uned ei hun o Awstria, a'r pelets pren o gwmni PBE Fuels o Hwlfordd, Sir Benfro.

Meddai Garmon Gruffudd, Rheolwr Gyfarwyddwr Y Lolfa: "Rydym yn ddiolchgar iawn i Paul am ei waith manwl a'i arweiniad. Mae'r staff i gyd yn dweud fod y wasg yn lle llawer mwy cysurus a dymunol i weithio ynddi nawr. Mae'n braf iawn cael bod yn egwyddorol ac yn economaidd gall ar yr un pryd."



| Papur Pawb            |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                        |
|-----------------------|---------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|--------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Golygydd Cyffredinol: | Gwyn Jenkins<br>Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion<br>golygydd@papurpawb.com<br>Cysyllter â golygyddion y mis                                                                                                                                                                                                                                                                                 | (01970) 832560                                                                                         |
| Tynnu lluniau:        |                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                             |                                                                                                        |
| Tal-y-bont:           | GOHEBYDDION LLEOL<br>Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont<br>Aileen Williams, Maesmeillion, Tal-y-bont<br>Eirlys Jones, 91 Maes-y-deri, Tal-y-bont<br>Dilys Morgan, Alltgoch, Tal-y-bont<br>Richard Huws, Pantgwyn, Bont-goch<br>Siân Saunders, Is-y-coed, Tre Taliesin<br>Susan Lewis, Maesgwyn, Tre'r-ddôl<br>Janet Evans, Cefngweiriog, Tre'r-ddôl<br>Lona Mason, Maes y Coed, Ffwrnais | 832592<br>832438<br>832483<br>832498<br>832566<br>832230<br>832429<br>(01654) 781260<br>(01654) 781324 |
| Cadeirydd:            | CYMDEITHAS PAPUR PAWB<br>Arthur Dafis, Mur Mawr, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                 | 832093                                                                                                 |
| Is-gadeirydd:         | Helen Jones, Gellimanwydd, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                       | 832760                                                                                                 |
| Ysgrifennydd:         | Geraint Pugh, 13 Dôl Pistyll, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                    | 832433                                                                                                 |
| Trysorydd:            | Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                      | 832093                                                                                                 |
| Tanysgrifiadau:       | Bledwyn Huws, Henllan, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | 832448                                                                                                 |
| Talysybion:           | Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                           | 832076                                                                                                 |
| Plygu'r Papur:        | Gwenllian Parry-Jones; Tegwen Jones                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                         |                                                                                                        |
| Dosbarthwyr:          | John Leeding; Lynn Ebenezer; Gwenllian Parry-Jones                                                                                                                                                                                                                                                                                                                                          |                                                                                                        |

Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.

## Llythyr

## PWY OEDD YN GYFRIFOL?



Ffos-fudr ddoe

Annwyl Olygydd,  
Cefais syndod a siom fawr iawn ddechrau'r flwyddyn yma, i weld fod tŷ Ffos-fudr wedi diflannu mor sydyn. 'Roedd y tŷ, sied gneifio, corlannau trochi a trafod y defaid, yr ysgubor, y stabl, y beudy a'r holl hen hanes oedd iddo, wedi'i chwalu a'u claddu'n llwyr, a dim golwg bod adeilad wedi bod yno erioed.

Hoffwn gael gwybod pwy oedd yn gyfrifol am wneud y fath lanast?

A gafwyd caniatâd cynllunio i ddymchwel y lle?

A fuont yn trafod gyda Cyngor Bro Ceulanamaesmawr cyn gwneud dim?

Mae'r lle wedi'i ddifetha fel lluest, dim corlannau na thy i'r bugail mwyach. Bum yn cael bwyd yn y tŷ ar ddiwrnod cneifio yn niwedd y tridegau a'r pedwardegau'r ganrif ddiweddar am flynyddoedd pan yn cynorthwyo ein cymdogion Mrs Roberts a'i brawd Arthur Isybanc i gneifio. Yr oeddent yn cadw'u defaid dros yr haf ar y Waun Ffos-fudr. Cyngor Dosbarth Ceredigion oedd yn

berchen y lle amser hynny, pob llathen oedd a rhediad dŵr i Lyn Craig-y-pistyll.

Dylem fel plwyfion fyynnau fod y sawl oedd yn meddwl y gallent wneud fel y mynnent a'n plwyf ni, roi ymddiheiriad, a mynnu eu bod yn codi cofeb barhaol a hardd i ddynodi lle y bu, er parch i'r sawl a'i adeiladodd, ac i'r cenedlaethau fu yn byw yno am ganrifoedd, neu fydd neb yn gwybod dim mewn ugain mlynedd lle'r oedd Ffos-fudr.

Carwn gael atebion i'r cwestiynau yma erbyn y Papur Pawb nesaf os gwelwch yn dda.

Gyda diolch,  
Gwilym Jenkins



Ffos-fudr heddiw

**Cynhelir Cyfarfod  
Blynyddol Cymdeithas Sioe  
Tal-y-bont, Nos Lun,  
3 Mawrth am 8 o'r gloch yn  
Neuadd Goffa Tal-y-bont.  
Croeso cynnes i bawb.**

# Dyddiadur

Os am gynnwys manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad yn Nyddiadur y Mis, dylech anfon y manylion llawn at Glenys Edwards, Cartrefle, Tal-y-bont (01970 832 442) o leiaf deng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

## Chwefror

**14 Llew Gwyn** 8.30 yp  
Clwb Nos Wener 'Beirdd y Byd'

**16 Bethel** 10.00 Gweinidog

**Rehoboth** 10.00 Rhidian Griffiths

**Eglwys Dewi Sant** 11.00  
Boreol Weddi

**17 Neuadd Goffa** 7.30  
Merched y Wawr 'Hywel Teifi' (Tegwyn Jones)

**17 Neuadd Goffa** 7.30  
Pobl a natur: beth sy'n gwneud yr ardal hon yn arbennig? *Dewch i rannu hanesion a helpu ni lunio panel newydd.*

**17 Neuadd Goffa** (Stafell snwcer) 8.00  
Pwyllgor Cymdeithas Treialon

**20 Neuadd Goffa**  
Sefydliad y Merched 'Yr Yswisdir' (Dr Stephen Evans)

**23 Bethel** 5.00 Gweinidog

**Rehoboth** 5.00 Parch Judith Morris

**Eglwys Dewi Sant** 11.00  
Gwasanaeth Teuluol

**25 Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn** '400 mlynedd o fapiau Ceredigion' (Huw Thomas - Llyfrgell Genedlaethol)

## Mawrth

**1 Neuadd Goffa** 7.30  
Cawl a Chân gyda Linda Griffiths a'r Merched

**2 Eglwys Dewi Sant** 10.00

**2 Bethel** Uno yn Nasareth

**Nasareth** 10.00 Bugail

**Rehoboth** Oedfa'r Ofalaeth

**Eglwys Dewi Sant** 11.00  
Boreol Weddi

**3 Merched y Wawr**  
Dathlu Dydd Gwyl Ddewi yn 'MG'S' (yn nghwmni Angharad)

**3 Neuadd Goffa** 8.00  
Cyfarfod Blynyddol, Cymdeithas Sioe Tal-y-bont

**4 Llanfach, Taliesin** 7.00  
Sefydliad y Merched Dathlu Gwyl Ddewi: Cawl a Chân hefo grwp gwerin Brenig

**9 Bethel** 2.00 Gweinidog

**Nasareth** 11.15 Bugail (C)

**Rehoboth** 10.00 Bugail (C)

**Eglwys Dewi Sant** 11  
Cymun Bendigaidd

**11 Rehoboth, Taliesin**  
Chwirydd Rehoboth 'Bywyd Gohebydd' (John Meredith)

**16 Bethel** 10.00 Gwasanaeth Teulu

**Rehoboth** 2.00 Adrian Williams

**Eglwys Dewi Sant** 11.00  
Boreol Weddi

## Eglwys St. Pedr, Elerch

Cafwyd dau wasanaeth cofiadwy dros gyfnod y Nadolig. Cynhaliwyd gwasanaeth carolau ar brynhawn Dydd Sul 15 Rhagfyr dan ofal Canon Stuart R. Bell gyda chymorth Miss Emma Whittick a Mrs Lona Jones. Hyfryd oedd croesawu Parti Plygian Penrhyn-coch a gyfoethogodd y gwasanaeth gyda nifer o eitemau traddodiadol. Cyflwynwyd y casgliad o £125-00 i gronfa Oxfam tuag at drychineb Ynysoedd y Ffilippinau.

Am 8-00 o'r gloch ar fore Dydd Nadolig daeth nifer dda o bentrefwyr ynghyd i'r Cymun Bendigaidd dan ofal y Canon

Stuart R. Bell. Cafodd pawb gyfle hefyd i longyfarch Mr Dewi Evans, un o wardeiniad yr Eglwys, ar gyrraedd penblwydd arbennig!

**Golygyddion y rhifyn hwn oedd Robat ac Enid, gyda Robat yn dylunio. Golygyddion mis Mawrth fydd Gwyn a Fal (maesgwyn@fsmail.net; 832560) gyda Ceri yn dylunio. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn newyddion fydd dydd Gwener 7 Mawrth, a bydd y papur ar werth ar 14 Mawrth.**



## LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Helen Medi Davies ar ei pherfformiad yn "It's a Wonderful Life". Bu Heledd yn lwcus iawn i gael chware rhan ZuZu Bailey yn y sioe yng Nghanolfan y Celfyddydau, cyn y Nadolig. Hefyd mae'r ddwy chwaer Heledd ac Elinor wedi bod ynn brysur yn perfformio fel rhan o gorws y plant yn y Panto "Dick Whittington and the Pirates of the Caribbean". Da iawn chi ferched.

Llongyfarchiadau i Dylan Williams, Werdeg, Bontgoch ar gael ei dderbyn i'r Coleg yn Rhydychen i astudio'r gyfraith. Bydd yn cychwyn yno ym mis Medi.

Mae Ffion Jones, Berthlwyd wedi cael gwobr am gyrhaeddiadr arbennig o fewn y Ganolfan Gynnal Dysgu, Ysgol Penglais.

## YN YR YSBYTY

Bu Karen Evans, Nanatllain yn ysbyty Bronglais a Chaerfyrddin. Da clywed ei bod yn gwella.

Cafodd Barbara Jenkins driniaeth yn ysbyty Bronglais. Da clywed ei bod adref erbyn hyn.

Hefyd, Nerys Roberts, Maesyderi, bu hithu yn ysbyty Bronglais. Pob dymuniad da iddi.

Dymunwn yn dda i John Jenkins, Aberceulan sydd wedi symud i gartref Plas Cwmcyfelin, Clarach. Dymunwn bob hapusrwydd a chysur iddo yno.

Pob llwyddiant i Marit Parker, 3, Tan-y-Coed Talybont sydd wedi symud i Swydd Efrog i weithio dros dro.

## DATHLU

Llongyfarchiadau i Clive Northam, Drws y Coed a David Evans, Talllan, Llancynfelin ar ddathlu penblwyddi arbennig yn ddiweddar.

## CYDYMDEIMLAD

Trist iawn oedd clywed am farwolaeth Bennett Jenkins, Ynys Capel, ar y 6ed o Chwefror. Cydymdeimlwn yn fawr gyda'i deulu agos a'i lu ffrindiau.

## GWELLHAD BUAN

Dymunwn wellhad buan i Alan Magor, Tre Taliesin, sydd wedi bod yn yr ysbyty'n ddiweddar ar ôl brifo ei gefn.

**Gwasanaeth Scanio**  
**ARTHUR MORGAN**  
  
Pencefn, Y Ferwig, Aberteifi, Ceredigion  
01239 615085 - 07721 786292

# Pobl a Phethe



## MARWOLAETH

Trist yw cofnodi marwolaeth Ruby Dewhurst ar yr 17eg i Ionawr. Ganwyd Ruby yn Lerpwl yn 1939 a symudodd hi a'i gŵr Harry Dewhurst i Dalybont yn 1963. Buont yn byw am ychydig yn Leri Sdtores yn yr Emporium, wedyn Maesyderi, cyn symud i Eddington House yn 1969. Magodd bedwar o blant yn Nhalybont a bu'n weithgar ym mywyd y pentref. Bu farw yn dawl yn ysbyty Bronglais yng nghwmni ei gŵr a'i phlant, Tina, Paul, Geoff a Ken. Cydymdeimlwn â'r teulu oll yn eu profedigaeth.

## SWYDDI NEWYDD

Llongyfarchiadau cynnes i ddwy o ferched disglair Bont-goch ar eu swyddi newydd. Dyrchafwyd Helen Ó Súilleabháin, Penygro, i swydd Pennaeth Gwerthu a Marchnata, Cyngor Llyfrau Cymru, a phenodwyd Sian Wyn Davies, Yr Hen Waith Dŵr, i swydd rheolwr prosiect yn IBERS. Dymunwn yn dda iddynt gyda'u cyfrifoldebau newydd.

## loga

Neuadd Goffa, Tal-y-bont,  
Nos Fawrth am 7.30- 9.00.  
Pris £5.00  
Cysylltwch a  
**Sue Jones-Davies**  
**01970 624658**

## Afiaith

Gwasanaeth Cyfieithu

Profiadol • Profesiynol  
Prydlon • Personol

Martin Davis  
Is-y-coed, Tre Taliesin, MACHYNLLETH  
Powys SY20 8JG Cymru  
Ffôn/Ffacs +44 (0)1970 832230 afiaith@aol.com

## NOSON LAWEN

Llongyfarchiadau a lwyddiant Elen Pencwm ar actio cymeriad gwrywaidd ar y llwyfan yn y rhaglen "Noson Lawen". Roedd y gynulleidfa yn morio chwerthin wrth wrando ar Sianco yn mynd trwy'i bethau.

## Rhowch gynnig ar rywbeth newydd eleni

Mae gan Age Cymru Ceredigion rwydwaith cryf o wirfoddolwyr ac rydyn ni yn chwilio am bobl trugorog twym galon i ymuno â'n tim. Ar hyn o bryd mae gennym y swyddi canlynol i'w llenwi:

**\*Cyngor a Gwybodaeth**

**\*Gofal Ewinedd Cymdeithasol**

**\*Cymorth Gweinyddol**

**\*Gwirfoddolwyr ar gyfer grwpiau cymdeithasol**

**\*Cymorth Cymunedol**

**— yn cynnwys hyfforddiant a chefnogaeth**

Mae gwirfoddoli gyda Age Cymru Ceredigion yn ffordd wych o gymryd rhan yn eich cymuned, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â phobl newydd.

Am fwy o wybodaeth, peidiwch ag oedi i gysylltu â ni:

**Sioned Lewis 01970 615 151 / 07772036200**

## K Hughes

### Plymio a Gwresogi

Gosod a Theillio Ystafelloedd Ymolchi  
**Gwasanaeth Boeler Olew**

01970 832129  
07761 917235

## Sefydliad y Merched, Talybont

Cafwyd dechrau da i'r flwyddyn drwy fynd am ginio i'r Wildfowler, Tre'r Ddôl ble dosbarthodd ein Llywydd raglenni 2014.

Sheila Talbot, ein hysgrifenyddes oedd yn gyfrifol am y noson gyntaf ar yr 20ed o Ionawr. Soniodd am y dulliau o ymchwilio i'r goeden deuluol, a dangos fod gan bawb rhywun diddorol rywle yn yr achau. Bu hen hen fodryb ac ewyrth Sheila yn byw yn Hughesovka, yr Ukraine am 35 mlynedd. Yno ei hewyrth John o Sir Benfro oedd prif gynorthwydd John Hughes, y dyn a adeiladodd y "Dref Ddur" i'r Tzar.

Daethai pob aelod â llun un o'i pherthnasau a chafwyd hwyl fawr yn ceisio gweld pwy oedd yn perhyn i pwy.

Yn ein cyfarfod nesaf byddwn yn cael sgwrs am y Swisdir gan Dr. Steve Evans. Mae croeso cynnes i aelodau hen a newydd.

## Garej Davmor



- Petrol a Diesel
- Gwasanaethu, trwsio, MOT a theiars
- Adnewyddu blychau gêr a gosod cyddyddion
- Llogi fan a bws mini, gwerthiant ceir
- Siop Gyfleustra drwyddedig

**Y garej gwasanaeth llawn yn Nhal-y-bont**

**01970 832278**

**www.davmorgarage.co.uk**

# Mentro yn Llangynfelyn



Bydd Siop a Chaffi Cynfelyn yn ehangu ac yn datblygu yn ystod y blynnyddoedd nesaf. Daeth nifer dda o'r pentrefwyr ynghyd ddydd Gwener, Ionawr 17eg i weld y cynlluniau sydd wedi eu paratoi gan y Penseiri George a Thomas, o Fachynlleth a gellid trafod y cynlluniau gyda'r penseiri rhwng 4 a 7 o'r gloch ar y diwrnod hwnnw. Roedd hwn yn achlysur pwysig yn y pentref gydag Elin Jones A.C. ac Ellen ap Gwyn Cadeirydd Cyngor Ceredigion wedi dod i ddangos eu cefnogaeth. Roedd yn gyfle i gyfarfod ac i weld a thrafod y cynlluniau, ac yn ôl Cindy Harris, cadeirydd y gwirfoddolwyr, gobeithir y bydd yr adeilad newydd yn datblygu i fod yn adeilad o bwys i Ogledd Ceredigion.

Mae'r adeilad mewn lle amlwg i bawb sy'n pasio yn eu ceir ar hyd yr A487 neu yn troi am Ynyslas a'r Borth. Bydd

ei wyneb allanol o bren a rhan o'r to wedi ei orchuddio a thyweirch er mwyn cydymffurfio â'r ardal wledig o'i gwmpas. Bydd ffenestri mawr a digon o oleuni oddi mewn i'r siop a'r caffi, a llawer mwy o le nag sydd yn y caffi presennol. Gellir gosod byrddau oddi allan pan fydd y tywydd yn ffafriol, a bydd rhan o'r to yn ymestyn drosodd i roi cysgod. Bydd hefyd le saff i blant chware tu allan. Mae hyn i gyd yn cydweddu a'r amgylchfyd gwledig.

Mae'r gymdeithas leol eisoes wedi dysgu llawer drwy gydweithio yn y siop, sy'n agored ers Mai 2013, ac mae'r her o'i rhedeg yn wirfoddol wedi tynnu'r pentrefwyr at ei gilydd. Bydd llawer mwy o gydweithio pan ddechreuir ar y gwaith adeiladu a datblygu, ond cawn ein sicrhau y bydd y siop a'r caffi yn parhau ar agor yn ystod y cyfnod hwnnw.

Cafodd y cynlluniau eu gadael yn y siop am bythefnos er mwyn i bawb oedd â diddordeb gael cyfle i'w hastudio. Os am unrhyw wybodaeth bellach cysyllter â Shelagh Hourahane, cadeirydd y fenter.



**TEIARS**  
**HUW LEWIS**  
**TYRES**

24hr 01970 611 166  
Email: post@huwlewis tyres.com  
www.huwlewis tyres.com

**Glanyrafon Ind Estate**  
Llanbadarn, Aberystwyth,  
Ceredigion, SY23 3JG  
01970 611 166

**Maglona Garage**  
Heol Maengwyn, Machynlleth,  
Powys, SY20 8EA  
01654 700 000

**Mill Garage**  
North Road, Lampeter,  
Ceredigion, SA48 7JA  
01570 422 221

TEIARS  
TYRES

BREC'S  
BRAKES

MOT

BATRIS  
BATTERIES

GWACAWYR  
EXHAUSTS

GWASANAETHAU  
SERVICES

**Pob math o deiars I feiciau modur, ceir, faniau, 4x4, peirianau amaethyddol a loriau.**

**Gwasanaeth a MOT yn dechrau o £98**

**Archebwch eich MOT nesaf ar ein safle we I ddsbarth 1/2/4/5a/7**

**Caffi'r We a Wi-Fi am ddim**

**Tafelli tew o dost, menyng, jam lleol**

**Sesiynau Galw Heibio yng Nghaffi Siop Cynfelyn 10am-2pm**

Dewch i gwrdd â phobol eraill yn eich llofa gymunedol  
Y Cwtsh - Lle i ymlacio, cymdeithasu a rhwydweithio.

**Ar ddydd Mawrth - Pobl Hŷn**

**Ar ddydd Mercher - Gweithwyr Cartref**

**Ar ddydd Iau - Rhieni a Phlant Bach**

**Baps cig moch**

**Pasteiod wedi'u gwneud yn lleol**

**Cappuccinos ffrothlyd**

**Rhowch gynnig ar ein cawl a rhollion cartref**

**Brechdanau**

**Gwahanol fathau o de, coffi a diodydd meddal**

**Cacennau i dynnu dŵr o'ch dannedd!**

**I gyd am brisiau rhesymol**

**Bistro Gannets**

**Bwyd a Gwin Da**  
7 St James Square, Aberystwyth

**617164**  
Ar agor Llun i Sadwrn  
12-2 a 6-9.30

**Morlan**  
Canolfan ffydd a diwylliant  
Centre for faith and culture

**DIGWYDDIADAU MORLAN:**

- Iesu, yr aberth sy'n maddau** (7.30, 12 & 26 Chwefror, 12 & 26 Mawrth, 9 Ebrill) – 5 sesiwn dan arweiniad Enid Morgan. Trefnir gan y grŵp C21 lleol.
- Bore Coffi a Chystadleuaeth Coginio Masnach Deg** (10-12, 8 Mawrth). Manylion llawn ar y wefan.
- Rosa** (7.30, 16-17 Mawrth). Cwmni Morlan yn cyflwyno drama gan John Roberts am Rosa Parkes. Mynediad: £3.

Manylion llawn ar wefan Morlan:  
**www.morlan.org.uk**  
Morlan, Morfa Mawr, Aberystwyth SY23 2HH  
01970-617996; morlan.aber@gmail.com  
@CanolfanMorlan



# CYFLYMDER CERBYDAU 'SLAWER DYDD

Gan mlynedd yn ôl, ym mis Gorffennaf 1914, digwyddodd damwain car angheuol ar y ffordd ynghanol pentref Tal-y-bont. Mae'n debyg mai hon oedd y ddamwain car gyntaf erioed yng nghyffiniau Aberystwyth lle cafodd person ei ladd.

Roedd fy hen-ewyrth, Morgan Evans a'i deulu, yn byw ym Minffordd ar y pryd (cyn symud yn ddiweddarach i Benlôn). Ar nos Lun, 6 Gorffennaf 1914, rhedodd ei ferch fach, Margaret Ann, a oedd yn bump a hanner oed, ar draws y ffordd i ymuno â'i ffrindiau a oedd yn chwarae gyferbyn â'r tŷ. Yn anffodus ni welodd y car a oedd yn dod o gyfeiriad Machynlleth ac fe'i tarwyd ganddo, ac er iddi gael ei chludo i'r ysbyty yn Aberystwyth bu farw o'i hanafiadau y noson honno.



Gŵr o'r enw Thomas Hall oedd yn gyrru'r car ac yn cludo ei feistres, Miss Griffiths, Haffcot Hall, Church Stretton, a Miss

Woodhouse, ei morwyn, i Aberystwyth.

Yn y cwest a gynhaliwyd y diwrnod canlynol, dywedodd yr heddwas David Jones ei fod yn aros o flaen gorsaf yr heddlu yn Nhal-y-bont ac iddo weld y plentyn yn cael ei tharo.

Amcangyfrifodd mai 12-15 milltir yr awr oedd cyflymder y car wrth yrru drwy'r pentref. Dywedwyd na ddylai unrhyw gerbyd deithio drwy bentrefi ar y cyflymder yma, a dylai'r ddamwain erchyll yma berswadio'r Cyngor Sir i leihau'r cyflymder ar unwaith. Hefyd gwelwyd y ddamwain gan Mary Jane Lewis, a oedd yn byw gyferbyn â Minffordd, pan oedd hi'n rhoi dillad ar y lein yn ei gardd.

Yn dilyn y ddamwain, bu erthyglau yn y papurau lleol yn ategu'r hyn a ddywedwyd yn y cwest ar i'r Cyngor Sir leihau cyflymder ceir wrth yrru drwy bentrefi i 6 milltir yr awr. Hyd yn oed cyn y ddamwain, mae'n debyg fod ymwelwyr â Borth wedi bod yn cwyno am gyflymder ceir drwy'r pentref hwnnw, a'u bod wedi gadael y lle yn gynnar oherwydd y broblem. Gan mlynedd yn ddiweddarach, mae'n amlwg nad yw pethau wedi newid gan fod cyflymder cerbydau drwy drefi a phentrefi yn broblem sy'n dal i achosi pryder o hyd.

Roedd Margaret Ann yn gyfnither i Annie Jones, y baban wyth mis oed, a laddwyd pan oedd yn teithio gyda'i rhieni ar reilffordd yr Hafan ger Tal-y-bont ar 2 Awst 1897 – roedd hi wedi ei lapio mewn siôl ym mreichiau ei mam pan dynnwyd y siôl a'r baban o dan olwynion y troli. Felly, dyna frawd a chwaer i fy Nhad-cu, James Pearce Evans, wedi colli eu merched mewn damweiniau erchyll.

Carys Briddon

## Sedd Gyhoeddus

Mae gan Bont-goch bellach sedd gyhoeddus ar ôl i un o seddau Talybont gael ei ail-leoli yn y pentref gan Gyngor Ceulanamaesmawr. Fe'i lleolwyd, am y tro beth bynnag, ger yr Hen Waith Dŵr. Y cyfan sydd angen nawr yw tywydd braf er mwyn iddi gael ychydig o ddefnydd!

### Y Fframdy

Mae'r gweithdy yn darparu gwasanaeth fframio dychmygus o'r safon uchaf.

Cewch ddewis o amrediad eang o siapiau gosod a fframiau.

Bydd y fframdy'n gallu darparu ar gyfer unrhyw anghenion unigol.

Y Fframdy, Glanceri, Y Borth, Ceredigion SY24 5JA

Ffôn: 01970 871042

Symudol: 07773 846659

# Apêl Haiti



Mae'n nod gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg i godi chwarter miliwn o bunnoedd tuag at Apel Haiti i geisio lleddfu ychydig ar y dioddefaint a't tlodi sydd yn y wlad honno. Trefnodd Capel Beth-el "Ginio Cawl" ym mis Hydref pryd y daeth Elenid Jones atom i sôn am gyflwr truenus y bobol.

Yn ystod y mis hwn trefnodd Gwilym Jenkins ddwy noson o ffilmiau a dynwyd ganddo i gofnodi peth o hen hanes a chymeriadau ardal Talybont.

Dangoswyd y ffilm gyntaf yn festri Bethel ar yr 22ain o Ionawr a chroesawyd ni gan y gweinidog y parch Richard Lewis. Philip Davies oedd yn gyfrifol am y taflunydd a gweithiodd popeth yn ardderchog.

Yr oedd yn bleser dilyn camera Gwilym heibio Penrhiw i fyny i gyfeiriad Moel Llyn a gwrando arno yn sgwrsio â'r diweddar Defi Tomos Lloyd a'r diweddar Trefor Williams Cwmslaid, y tri ohonynt yn gwybod hanes pob adfail a thwmpath o gerrig, ac yn gallu dweud hanesion di ri am y teuluoedd mawr o blant a fagwyd mewn bythynod anghysbell yn yr ardal flynyddoedd mawr yn ôl.

Yr ail noson, y 5ed o Chwefror croesawyd ni i'r capel a chafwyd noson dra diddorol unwaith eto yng nghwmni Gwilym. Cawsom edrych ar leoliad Ogof Morus yn y pellter, a dysgu llawer o chwedlau a hanesion am yr ardal. Dod yn ôl wedyn heibio Bedd Taliesin a chlywsom y chwedl ble dywedir i'r bardd enwog gael ei gladdu, ac fel y ceisiodd rhyw fframwr symud y garreg fawr, ond iddo gael ei rwystro gan storm enfawr o

fellt a tharannau. Credid bod amryw o feddi yn y cyffuniau ble cawsai cyrff eu hamlosgi, ac fe ddynodid y beddi hyn gan sgwariau o gerrig yma ac acw.

Cawsom hanes capel Soar gan Eurfryn Williams Pemsarn a oedd yn cofio mynychu gwasanaethau o dan ofal y parchedig Morlais Jones. Cawsom fynd i mewn i'r capel drwy gyfrwng y ffilm a gweld yr hen bulpud ble bu'r Parch Fred Jones ac eraill yn pregethu.

Gorffennwyd y daith yng Ngharreg Cadwgani, a hyfryd oedd clywed Beti Jenkins a'i merched, Delyth a Meinir yn canu "Llynnoedd" o waith J.R. Jones i gerddoriaeth Eleri Huws.

Cafwyd cyfle i sgwrsio ar ôl edrych ar y ffilmiau gan fod teulu Gwilym ac Ann wdi partoi yn helaeth ar ein cyfer a'r baned a'r gacen yn dderbyniol dros ben. Clywsom lawer stori ddoniol a thro trwstan am gymeriadau na allai Gwilym hyd yn oed fod wedi eu ffilmio!

Nos Iau, Chwefror 6ed bu Gwilym yn sgwrsio gyda Geraint Lloyd ar Radio Cymru. Dywedodd fel y bu cael ei gamera cyntaf yn gymaint o hwb iddo ddatblygu'r grefft, ac ar ôl ymddeol o ffermio fod ganddo fwy o amser i ddilyn ei ddiddordebau. Yr oedd mor falch ei fod wedi gallu cofnodi lleisiau cynifer o'i hen ffrindiau yn eu cynefin cyn iddi fynd yn rhy ddiweddar.

Diweddodd y sgwrs gyda balchder yn ei lais trwy ddweud ei fod wedi codi £700 i gronfa Haiti.

# Ffwrnais, Eglwysfach a Glandyfi

## Sefydliad y Merched Eglwysfach

Wedi ei sefydlu yn 1923 mae Sefydliad y Merched Eglwysfach yn 90 oed, a hyd heddiw yn parhau i fod yn sefydliad bywiog sydd yn awddus i wahodd merched lleol i fod yn aelodau. Mae'r sefydliad yn cyfarfod ar nos Lun gyntaf pob mis yn yr Ystafell Haearn, 7.30. Mae croeso ichi ddod i'n cyfarfod nesaf 3 Mawrth i gael blas ar ein gweithgareddau pan bydd Lona Mason yn sgwrsio am Casgliad y Werin. Am ragor o fanylion cysylltwch efo Sheila Lloyd 01654 781332

## Mathemateg Bwyd

Cyflwynwyd coeden yn anrheg i Juliet Reagen fel diolch iddi am ei chyfraniad fel Llywydd dros y pum mlynedd diwethaf. Hefyd fe ffarwelwyd a dymuno yn dda i Jo Pettitt, cyfaill da ac aelod o'r pwyllgor sydd yn gadael yr ardal wedi 30 mlynedd o fyw yma.

Yr Athro Russell Davies, Ffwrnais oedd ein siaradwr gwadd, fe fu yn sgwrsio am "Mathemateg Bwyd". Cafwyd trafod difyr megis pam bod gwahanol brandiau siocled yn blasu mor wahanoli i'w gilydd, a pam bod jeli yn crynu, gan gyflwyno hyn mewn hafaliadau!

## Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Sir Drefaldwyn

Mae gwaith wedi dechrau ar adeiladu gwylfa 360° yng ngwarchodfa Cors Ddyfi. Rhoddwyd arian i'r gwaith gan Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfa Datblygu Rhanbarthau Ewrop. Bydd hwn yn atynfa ddifyr iawn wedi iddo ei gwblhau, yn sicrhau gwell golwg o nyth Gweilch y Môr a llawer mwy.

## Yr Ystafell Haearn – Blwyddyn yn Ddiweddarach

Mae'r Ystafell Haearn bellach



Andrew Agnew yn cyfarch yr haggis

ar agor ers blwyddyn yn dilyn ei adnewyddiad, a mae'n cael ei ddefnyddio yn rheolaidd gan y gymued. Mae prysurdeb yr Ystafell yn llwyddiant ysgubol a mae ein dyled yn fawr i bawb fu'n brysur yn codi arian tuag at y fenter a sydd bellach yn cynnal yr adeilad a'r calendr o ddigwyddiadau.

DVD Cerddorol : Cynhelir dangosiad o gyngerdd The Who yn Ngwyl Ynys Wyth 1970 (lawr 34munud) nos Wener 14 Chwefror am 6.30 yn yr Ystafell Haearn. Ceshlir rhoddion tuag at yr Ystafell Haearn.

Ffilmiau : Dangosir ffilm blant *Smurfs 2* pnawn Sul 16 Chwefror 2.00 a ffilm *The King's Speech* pnawn Iau 20 Chwefror 2.00 gyda the i ddilyn yn yr Ystafell Haearn.

Dawnsio Albanaidd : Bydd y noson nesaf yn cael ei chynnal nos Fercher 19 Chwefror 7.30 yn yr Ystafell Haearn. Croes i bawb !

Tennis Bwrdd : Mae croeso i bawb ddod i chwarae tennis bwrdd nos Fawrth 11 a 25 Chwefror 7.00 yn yr Ystafell Haearn.

Ioga er iechyd a lles pob nos Lun 7 – 8.30 yn Neuadd Llanfach, Taliesin, ar gyfer pawb yn cael ei ddysgu gan Sarah McKenna, athrawes brofiadol British Wheel of Yoga. Mae pob dosbarth yn £5, nid oes rhaid cofrestru am dymor. Ffoniwch 01654 781388 am ragor o fanylion.

## Taith Elusennol i Gerdded Arfordir Cymru

Rhwng 18 Mehefin a 19 Awst bydd dwy fyfyrwr o Brifysgol Aberystwyth yn cerdded 870 milltir ar hyd llwybr arfordir Cymru i godi arian tuag at Sefydliad Cymorth Bywyd Gwyllt (Wildlife Aid Foundation). Bydd Cesca Ryder a Leigh-Anne Beattie yn cerdded heibio'r ardal hon 16 Gorffennaf.

Mae'r ddwy yn gobeithio codi £25,000 ar gyfer yr elusen, ac yn awyddus i gadw eu costau o fewn rheolaeth, felly mae'r ddwy yn chwilio am roddion, cynnig am fwyd a llefydd i wersylla yn yr ardal.

Os gallwch gynnig eich cymorth neu os hoffech ymuno a hwy neu eu cefnogi cysylltwch gyda nhw ar [cescaeveryder@gmail.com](mailto:cescaeveryder@gmail.com) neu dilynwch eu blog : [welshwalkforwildlife.blogspot.com](http://welshwalkforwildlife.blogspot.com).

## Bywyd yn Nyffryn Dyfi

Cyfes o ddangosiadau. Bydd

Anne Maries Carty a Dan Gifford, dau wneuthurwr ffilm o Fachynlleth yn teithio o gwmpas Dyffryn Dyfi yn ystod 15 – 20 Chwefror yn dangos ffilmiau lleol wedi eu pweru gan bedalau. Eu bwriad yw casglu profiadau a barn pobl leol ar gamera yn dilyn pob dangosiad. Bydd yn holl gyfraniadau yn cael eu harchifo yn y Llyfrgell Genedlaethol a chynhyrchir ffilm o'r cyfan cyn diwedd y flwyddyn. Caiff y dangosiadau eu cynnal yn yr Ystafell Haearn 12 Mawrth rhwng 1.00 a 4.00. Mynediad am ddim.

## Banc Bwyd

Mae dau ganolfan casglu ar gyfer Banc Bwyd yn yr ardal, sef un yn mynedfa Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach a'r llall yn mynedfa Siop Cynfelin, gwerthfawrogi eich cyfraniadau.

## Brenig

Bydd y triawd poblogaidd yn dychwelyd i'r Ystafell Haearn nos Sadwrn 8 Mawrth 7.30. Pris £5 wrth y drws. Dewch â'ch diod eich hunain.

## Cymdeithas Treftadaeth Llangynfelyn

Bu llawer o sôn y llynedd am y dasglu oedd i benderfynnu (ymysg pethau eraill) a oedd yr Eisteddfod Genedlaethol i barhau yn symudol. Ym 1864, blwyddyn Eisteddfod Genedlaethol Llandudno, cyrhaeddodd y rheilffordd Aberystwyth a'r flwyddyn ganlynol, 1865, cynhaliwyd yr Eisteddfod yn y dref honno. Fel y clywodd y Gymdeithas Dreftadaeth ar 28ain Ionawr, onibai am ddyfodiad y rheilffordd i lawer o drefi ar draws Cymru, nid oedd modd i feirdd a cherddorion deithio i'r Eisteddfod ac, felly, ni fyddai wedi bod yn bosibl i'r Eisteddfod deithio o fan i fan bob blwyddyn.

Cawsom sgwrs ddiddorol iawn gan Mr George Romary, o Amgueddfa Rheilffyrdd Borth, ar hanes rheilffyrdd yr ardal – yr arloeswyr a adeiladodd y lein, Thomas Savin a David Davies, Llandinam, a'r cymeriadau lleol, gorsaf-feistri a dynion signals a weithiodd arni. Bydd y cyfarfod nesaf ar 25ain Chwefror, pryd y bydd Huw Thomas o'r Llyfrgell Genedlaethol yn son am hen fapiau o Geredigion. Croeso cynnes i bawb.

## Merched y Wawr, Tal-y-bont a'r cylch

Ar ddechrau'r flwyddyn stormus hon, hanes tywyll, mwrdrwr a mwy a gawson ni gan yr awdur lleol Geraint Evans, Garnwen. Dros y blynyddoedd diwetha mae Geraint wedi ysgrifennu tair nofel ffuglen gyffrous a rheiny wedi eu cyhoeddi gan Y Lolfa. Clywsom gan Geraint hefyd eu bod nawr ar ffurf 'e' lyfr a daw ymatebion i'w nofelau o mor bell i ffordd a de Affrica.

O'i sgwrs ddifyr, maen amlwg bod nofelau poblogaidd am lofruddiaethau, a mwy na hynny, datrysiaid lofruddiaethau, hanes plismona a straeon ditectif wedi bod o ddiddordeb i Geraint ers blynyddoedd. Cawsom hanes y llyfrau ditectif cynta yn y Gymraeg i'r 'blockbusters' modern sydd ar silffoedd nifer ohonom. Yn ogystal tarodd olwg ar y cyfresi teledu diweddar sy'n ymwneud a datrys dirgelion cudd.

Da oedd clywed gan Geraint y bydd yn ysgrifennu nofel arall a gymer tua blwyddyn i'w chwblhau.

**Garej Paul Joseph**  
01970 822220

Pob Math o Geir  
Gwasanaeth a Thrwsio  
Diagnosteg a Weldio  
Paratoi a Thrwsio MOT



Dan Glo, Lon Glanfred, Llandre



# PYGIANA



Teitl llawn cyfrol ddiweddaraf Mihangel Morgan yw *Pygiana ac Obsesiynau Eraill* a dyna gewn ni – obsesiynau personol yr awdur, y pethau sy'n ei yrru ac yn ganolog i'w fywyd. Mae 'na broblem fan hyn oherwydd fel y cyfaddefa Mihangel ei hun *mae wernod un yn fêl i un arall* neu a rhoi'r peth mewn geiriau plaen, mae'r hyn sy'n obsesiwn iddo ef yn ddiflas i fi. I oresgyn y broblem rhaid defnyddio'r obsesiynau i daflu goleuni ar eu perchennog a dyna a wna Mihangel. Trwy ei sgwennu dychmygus down o un ysgrif i'r llall i adnabod yr awdur yn well.

Mae yma ddeg ysgrif a does dim syndod mae'r Pygs – y cŵn bach a'r wynebaw fflat sy'n ymdebygu i anifail a gerddodd slap i ddrws gwydr sy'n cael y lle blaenllaw. Dawn yn ôl at y pygs. Yn yr ail ysgrif mae Mihangel yn traethu am Hen Wragedd Ruth Jên ac yn dadlau bod yr arlunydd yn rhoi gogwydd gwahanol ar yr eicon Cymreig, y *Welsh Lady* a'r enwocaf ohonynt, Siân Owen Ty'n-y-fawnog. Lle mae Siân Owen yn guchlog guddio ei phechodau yn ei siôl

mae gwragedd Ruth Jên yn taflu eu rhagfarnau i'r domen wrth iddynt slotian yn hapus yn y llun a'r teitl ardderchog *Calliuch y Diawlaid!*

Mae rhai o'r ysgrifau yn trafod testunau sy'n lled gyfarwydd – y ffilm *Psycho* a chreffft y llythrennwr David Jones ac eraill yn ymhelaethu ar bynciau na wyddwn i beth bynnag ddim amdanynt. Pwy oedd Weegee? Mae Mihangel yn ei ddisgrifio fel yr *enwog* Weegee ac ar ôl darllen amdano cefais ysa i darganfod mwy a threulio hanner awr ddifyr ar y we. A dyna beth sy'n digwydd – rhyw fath o daflu cipolwg flasus ar y deng testun, cael boddhad ar yr hyn a ddysgoch a'ch symbylu i ganfod mwy.

Defnyddiais y term cipolwg, term addas oherwydd mae rhan helaeth y gyfrol yn trafod gwrthrychau gweledol. Trueni felly na chafwyd mwy o luniau ac er mor fyrlymus y sgwennu roeddwn i beth bynnag yn ysu am gael *gweld* ffotograffau Weegee a phaentiadau Edward Gorey.

Ydi, mae Mihangel wedi ffoli ar Pygs, yn wir gellid dadlau y byddai Pygmania yn well teitl i'r gyfrol. Mae'n casglu pob peth yn ymwneud a'r cŵn. Sylwch hefyd ar nymbar plêt ei gar bach coch – y rhifau ac wedyn y dair llythyren PUG! Dyna beth yw obsesiwn! Y ddiweddar cafodd Pyg newydd – un ddu a bedyddio honno yn Winni Finni Hadog. Nawr gwn nad oedd y Winni gwreiddiol yn enwog am ei glanweithdra, ond du Mihangel?

GIE

*Pygiana ac obsesiynau eraill. Y Lolfa, £7.95*

## O'r Cynulliad

gan Elin Jones

Fel y soniais mis diwethaf, doedd hi ddim yn anodd rhagweld y byddai ein Gwasanaeth Iechyd yn hoelio llawer o sylw yn ystod 2014. Roeddwn yn flin iawn pan gyhoeddodd y Gweinidog y byddai sefyllfa'r uned famolaeth yn Ysbyty Bronglais yn cael ei adolygu unwaith eto.

Does dim sicrwydd ar beth fydd y cynllun eto. Dywedodd y Gweinidog na fyddai unrhyw newid tan ar ôl yr adroddiad ar ddyfodol gwasanaethau yn y canolbarth, ac ar ôl gwelliannau yn y drefn o gludo cleifion mewn argyfwng. Ond mae'n glir mai canoli gwasanaethau yng Nghaerfyrddin fyddai delfryd y Bwrdd Iechyd. Mae'n rhwystredig gorfod ymladd yr un brwydrau yn barhaus, ond mae gwasanaeth mamolaeth Bronglais mor bwysig i bobl canolbarth Cymru nes mai ymladd sydd raid. Rhaid hefyd edrych tua'r dyfodol ac roeddwn yn falch o lansio cynllun newydd y Blaid fydd yn anelu at recriwtio 1000 o ddoctoriaid newydd i'n Gwasanaeth Iechyd.

Ansicr yw dyfodol cynlluniau Ysbyty Aberteifi hefyd. Mewn cyfarfod diweddar gyda phrif swyddogion Bwrdd Hywel Dda, ches i ddim sicrwydd y byddai ysbyty newydd, sy'n cynnwys yr holl wasanaethau mae pobl yr ardal yn ei ddisgwyl, yn cael ei adeiladu'n gyflym. Rwy'n gobeithio cwrrd yn uniongyrchol gyda'r Gweinidog ar y mater yma yn fuan, ac mae'r ddeiseb anferth a drefnwyd gan y Cyngor Tref a Chyfeillion yr Ysbyty yn dyst i deimladau cryfion trigolion yr ardal.

Daeth dwy eitem o newyddion da y mis yma hefyd. Wedi ansicrwydd hir, gwrandawodd y Gweinidog Treftadaeth ar yr hyn yr oeddwn i ac eraill wedi bod yn ei ddweud ers misoedd, a diogelwyd dyfodol Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru, sy'n cyflogi 50 o staff ym Mhlas-Crug. Hefyd, adroddodd pwyllgor ar ei syniadau am greu Parth Datblygu Lleol yn nyffryn Teifi. Mae potensial i'r cynllun roi hwb gwirioneddol i fusnesau bach lleol, ac edrychaf ymlaen at y Llywodraeth yn rhoi hyn ar waith yn fuan.

## Sefydliad y Merched, Taliesin

Yng nghyfarfod mis Rhagfyr, aethom i ddathlu'r Nadolig i'r Wildfowler yn Nhre'r Ddol ble cawsom swper blasus iawn a chwmni difyr. Diolchodd Beti Wyn ar ran yr aelodau, am waith y swyddogion blaenorol gan gyflwyno anrhegion iddynt fel gwerthfawrogiad o'u gwaith trwyadl.

Yng nghyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd, James Cartwright o Daliesin, oedd ein gwr gwadd. Mae ef, ers yn fachgen ifainc, yn ymddiddori yn hanes y diwidiannau mwyngloddio a chafwyd ganddo sgwrs ddifyr a gwybodus iawn am fywyd, daeareg a ffeithiau am y diwydiant yma yng Nghymru a rhannau o Loegr.

Yn ddiweddarach yn y mis bu aelodau a ffrindiau yn cynnal eu grwp cerdded misol drwy gerdded o gwmpas y fro gan offren y daith yng Nghaffi Cynfelyn.

Edrychwn ymlaen am ein cyfarfod nesaf ar y 4ydd o Chwefror pryd y cawn arddangosfa a gweithdy ymarferol yn gosod blodau dan gyfarwyddid Chris Gilbert, Tre'r Ddol. Croeso cynnes i aelodau newydd i ymuno yn y noson hwyliog yma.

Beti Davies

**James Memorials**

Am  
GOFEBAU ARBENNIG  
BEDDARGRAFFIADAU  
ADNEWYDDU O SAFON  
ARWYDDION AR DAI A  
BUSNESAU

Gofynnwch am bampffed  
rhad ac am ddim

James Memorials  
Vicarage Crossing,  
Llandre, Bow Street  
Ffôn: (01970) 820 111

**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaernïol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd,  
estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont,  
Ceredigion SY24 5HJ  
[helen.iwan@btinternet.com](mailto:helen.iwan@btinternet.com)

01970 832760

**Salon Leri**

Pob agwedd o drin  
gwallt gan Richard

10am-7pm  
Llun-Gwener

(01970) 832 674

**Rhian**

trin gwallt gartref

25 mlynedd o brofiad  
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy

ffôn 832 612  
07835 525 553

# Ysgolion Tal-y-bont

## 3 YSGOL Y BARTNERIAETH LEOL

Mae tair ysgol y bartneriaeth leol (Ysgol Tal-y-bont, Llangynfelyn a Chraig yr Wylfa) wedi bod yn brysur iawn dros y mis diwethaf. Rydym wedi dod at ein gilydd i wneud pob math o bethau diddorol ar y maes chwarae i fynychu gweithdai a pherfformiadau hefyd.

## Llyfrgell Genedlaethol

Yn y Llyfrgell Genedlaethol cafodd plant Blwyddyn 5 a 6 y tair ysgol y fraint o glywed Michael Harvey, storiwr proffesiynol yn adrodd stori Taliesin mewn ffordd ddiddorol ac unigryw. Cawsom wybod am hanes Ceridwen yn creu'r swyn ar gyfer ei mab ond bod diferion o'r swyn wedi disgyn ar fys Gwion. Bu cwrso mawr wedyn lle trodd Gwion yn wahanol anifeiliaid cyn cyrraedd Tre Taliesin yn y diwedd. Roedd y weithgaredd yn rhan o'r cyfle i weld 4 o lawysgrifau pwysicaf Cymru gyda'i gilydd yn y Llyfrgell. Roedd y weithgaredd hefyd yn rhan o Wythnos Genedlaethol Adrodd Stori.



Plant o Ysgol Tal-y-bont yn aros dros nos yng Ngwersyll yr Urd

## Arad Goch

Cynhyrchiad Cwmni Theatr Arad Goch ar hyn o bryd yw 'Het Milwr a'r Twt Pinc' ac fe gafodd plant Cyfnod Allweddol 2 y tair ysgol gyfle i weld y perfformiad yn Neuadd Goffa Tal-y-bont. Mae'r sioe wedi ei seilio ar yr Ail Ryfel Byd ac yn arbennig ar effaith y rhyfel ar deulu'n byw yng ngorllewin Cymru. Roedd cysylltiad amlwg gyda'r presennol hefyd gyda chyfeiriad at y rhyfel presennol yn Afghanistan.

Lowri Sion yw'r unig actores yn y sioe a llwyddodd i greu naws arbennig o'r cychwyn gan bortreadu nifer o gymeriadau gwahanol yn ardderchog. Roedd y plant a'r oedolion a welodd y sioe wedi eu plesio'n fawr – diolch yn fawr Arad Goch.

< Gyferbyn: plant yr ysgol yn cymryd rhan mewn Gala Nofio yn Aberystwyth

## BLAS CHWEFROR GAN EICH PLAS LLEOL

### CACEN MÊL MYNACHOD

Mae'r gacen yma yn hawdd ei choginio ac yn blasu fel eich bod wedi bod wrthi am oriau! Defnyddiwch fêl cymysg ar gyfer y gacen ac ar gyfer mwynhad ychwanegol rhwch dipyn bach o fêl Nanteos drosti cyn ei gweini.

Mwynhewch! Nigel - Chef Patron

### Cynhwysion

440 gram o flawd plaen  
15 gram o bowdwr codi  
5 gram o soda pobi  
1/2 lwy de o halen bwrdd  
4 llwy de o sinamon wedi'i falu  
1/2 lwy de o glof wedi'u malu  
1/2 lwy de o holl sbeis wedi'i falu  
235 ml olew llysiau  
340 gram o fêl  
300 gram o siwgr gronynnog  
95 gram o siwgr brown  
3 wy mawr ar dymheredd ystafell  
1 lwy de o rin fanila  
235 ml o goffi neu dē cryf  
120 ml sudd oren ffres  
60 ml wisgi Cymreig (os ydymunwch)  
Cnau pecan i addurno

### Dull

Cynheswch y ffwrn i 350°F.  
Irwch eich tuniau pobi ac yna leiniwch â phapur memwrn sydd wedi ei uro'n ysgafn.

Cymysgwch y blawd, y powdwr codi, y soda pobi, yr halen, y sinamon, y clof a'r holl sbeis mewn bowlen. Gwnewch ffynnon yn y canol, ac ychwanegwch yr olew, y mêl, y siwgr gwyn, y siwgr brown, yr wyau, y fanila, y coffi neu'r te, y sudd oren a'r wisgi.

Gan ddefnyddio chwsg cryf, neu gymysgydd trydanol yn araf, cymysgwch yr holl gynhwysion i greu cytew trwchus. Gwnewch yn siŵr nad oes cynhwysion ar y gwaelod sydd heb eu cymysgu.

Arlhwyswch y cytew i mewn i'r tuniau pobi; rydyn ni yn eu pobi mewn tun pobi torth. Bydd y cymysgedd uchod yn gwneud 3 neu medrwyd ddefnyddio dau dun pobi cacen 9 modfedd sgwâr neu grwn.

Rhowch y tuniau ar ddau hambwrdd pobi ar ben ei gilydd; fe fydd hyn yn gwneud yn siŵr fod gwaelod y cacennau yn pobi yn gyflymach na'r canol a'r top.

Pobwch y cacennau tan eu bod yn sboncio yn ôl pan fyddwch yn pwysu eich bys ar ganol y gacen. Mae'r gacen yn cymryd tua 45-55 munud. Gadewch y cacennau i orffwys yn y tuniau pobi am 15 munud cyn eu troi allan. Addurnwch gyda cnau pecan.



## Plas Nanteos

### Chwilio am y Greal Sanctaidd

Dydd Sadwrn Mawrth y Cyntaf 9.30yb

Dathlwlch Ddydd Gŵyl Dewi eleni gyda'n taith bws arbennig yn olrhain hanes un o arteffactau pwysicaf cyfnod Crist, y Greal Sanctaidd, a sut efallai y daeth i Nanteos yn ystod cyfnod Henry VIII a diddymiad y mynachlogydd.

Fe fyddwch yn ymweld ag Eglwys Henfynyw, ger Aberaeron, ag Abaty Ystrad Fflur, Pontrhydfendigaid, sydd dan ofalaeth CADW. Yna bydd cyfle i fwynhau picnic sydd wedi ei baratoi ar eich cyfer cyn symud ymlaen i Bontarfynach. Ar ôl mwynhau'r rhacedrau syfrdanol awn yn ôl i Blas Nanteos am dē prynhawn blasu a chyfle i glywed am hanes y Plasty arbennig hwn.

£45 y person yn cynnwys picnic a the prynhawn

Nanteos, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 4LU t:01970 600522

[nanteos.com](http://nanteos.com)



# a Llangynfelyn



Plant Ysgol Llangynfelyn yn ymweld â chastell Aberystwyth

## Gala Nofio

Llongyfarchiadau i'r 12 plentyn a fu'n nofio yn y gala nofio i ysgolion bach. Aeth 10 plentyn drwyddo i'r gala terfynol yn erbyn ysgolion cynradd eraill ardal Aberystwyth.

Grace Davies – 3ydd – Rhydd Merched Blwyddyn 5  
Ben Phillips – 3ydd – Rhydd Bechgyn Blwyddyn 5  
Poppy Roberts – 3ydd – Rhydd Merched Blwyddyn 3  
Ruby Indeka – 4ydd – Cefn Merched Blwyddyn 5  
Elijah Girardi – 3ydd – Cefn Bechgyn Blwyddyn 4  
Milly Hughes – 6ed – Broga Merched Blwyddyn 6  
Poppy Kerridge – 3ydd – Broga Blwyddyn 5  
Ben Phillips – 3ydd – Pili-pala Bechgyn  
Milly Hughes, Mabli Rose, Ruby Indeka, Grace Davies – 4ydd  
**Cyfnewid Cymysg – Merched Blwyddyn 6**  
Jasmin Foster Leslie, Poppy Kerridge, Poppy Roberts, Tilly Heathfield – 4ydd – Cyfnewid Rhydd – Merched Blwyddyn 5



## Pêl-rwyd yr Urdd

Cymerodd 9 o blant yr ysgol rhan yng nghystadleuaeth bêl-rwyd yr Urdd. Roedd y gemau yn agos iawn, gyda'r gêm olaf yn gyfartal tan y funud olaf. Er na enillodd y tim, mwynhaodd pawb y profiad yn fawr iawn. Diolchwn i Miss Jones am hyfforddi'r plant.

## Cestyll

Aeth plant y Cyfnod Sylfaen ar ymweliad diddorol iawn fel rhan o'u gwaith y tymor yma. Dechreuwyd y diwrnod yn Llyfrgell Aberystwyth gyda Delyth Huws yn darllen stori am ddraig fach i'r plant. Bu'r plant wedyn yn brysur iawn yn gwneud marcyn llyfr siâp draig cyn cerdded i Amgueddfa Aberystwyth. Yno buont yn dysgu am hanes castell Aberystwyth a darganfod arteffactau y byddai'r bobl wedi eu defnyddio yn y castell. Ar ôl bwyta'u brechdanau yn y Coliseum, aethont am dro o gwmpas castell Aberystwyth cyn dal y bws nôl i'r ysgol.



Y plant yn mwynhau gwneud gwahanol chwaraeon ar Astrotyrff y Brifysgol

## Gwyl Aml-sgiliau'r Ddraig

Bu'r plant hyn ar Astrotyrff y Brifysgol i gymeryd rhan mewn amryw o weithgareddau chwaraeon. Roedd yn brynhawn bywiog iawn gyda chyfle i'r plant gael blas ar lawer o wahanol chwaraeon.



### 1 Rhagfyr 2015. Dyma pryd y bydd y ffordd y mae pobl yn dewis rhoi organau yng Nghymru yn newid.

Bu farw 35 o bobl y llynedd yn aros am drawsblaniad organ. Mae prinder organau wedi golygu bod un person wedi marw bob deng niwrnod yn 2012/13 ac mae'r cloc yn tician i gannoedd o bobl eraill. Y gwir amdani yw bod dros 200 o bobl yn aros am organ ar hyn o bryd yng Nghymru.

Dyma pam y bydd y ffordd y mae pobl yn dewis rhoi organau yn newid ar 1 Rhagfyr 2015. Bydd y system newydd yn ei gwneud yn haws i chi benderfynu'n bendant a ydych am roi eich organau ai peidio.

Bydd gennych dri dewis: gallwch fod yn rhoddwr organau drwy optio i mewn, neu drwy wneud dim byd. Os na fyddwch yn gwneud dim, cymerir yn ganiataol eich bod am roi eich organau. Os nad ydych am roi eich organau, gallwch gofrestru'ch penderfyniad i optio allan.

Nawr yw'r amser i wneud yn siŵr eich bod yn deall yr opsiynau ac yn siarad â'ch teulu a ffrindiau.

Am ragor o wybodaeth, ewch i  
[www.rhoiorganau.org](http://www.rhoiorganau.org)  
neu ffoniwch **0300 123 23 23**

Nawr yw'r amser i feddwl  
am roi organau



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

# ASTUDIO NEWID HINSAWDD

**Bu cyfres o raglenni ar y teledu yn ddiweddar yn mawrygu gwyddonwyr o Gymru sy'n arwain datblygiadau newydd mewn gwahanol feusydd. Yn eu plith yr oedd Gwydion Jones o Dal-y-bont, a dyma fe'n dweud ei hanes.**

Wedi imi raddio, cefais swydd fel technegydd ymchwil yn gweithio yn yr Adran Ddaeryddiaeth ym Mhrifysgol Abertawe o dan ofal yr Athro Siwan Davies. Ymunais â grŵp ymchwil sy'n ymchwilio i newid hinsawdd y gorffennol gan ddefnyddio lludw folcanig (teffra) fel modd o ddyddio'r newid hwnnw.

Mae pob echdoriad folcanig yn cynhyrchu haenen o deffra sy'n cael ei chadw mewn archifau megis gwaddodion llynnoedd, gwaddodion o'r môr a chreiddiau iâ, ac mae pob echdoriad yn cynhyrchu ôl bys cemegol unigryw. Y mae'r ôl bys cemegol hwn yn golygu bod modd adnabod haenen o deffra drwy edrych ar ei nodweddion cemegol, y mae hynny'n ein galluogi i gymharu'r newidiadau amgylcheddol mewn sawl archif gwahanol lle mae'r un haen teffra yn bresennol.

Ar ôl dysgu'r technegau ymchwil priodol, gan gynnwys defnyddio offer cymleth a drud fel magnetic separator a microscôp pŵerus, fy nhasg gyntaf oedd edrych ar waddodion o Lyn Llech Owain ger Gorslas yn Sir Gaerfyrddin. Profiad digon cyffrous oedd chwilio am ludw folcanig mewn gwaddodion o Gymru gan nad oedd unrhyw un arall wedi llwyddo i ddarganfod lludw folcanig mewn samplau o Gymru o'r blaen.



Gwydion Jones o Dal-y-bont yn cymryd samplau o Lyn Llech Owain

Ar ôl wythnosau o syllu drwy'r meicrosgôp fe daethom o hyd i dair haenen o ludw folcanig. Byddai hyn yn ein galluogi i gymharu archifau eraill sy'n cynnwys yr un math o deffra – os yw'r teffra yn cafateb y mae hynny'n golygu bod y llwch yn hannu o'r un llosgfynydd.

Fodd bynnag, wedi'r dargynfyddiad cyffrous, ni chafodd unrhyw ymchwil pellach i'w wneud i waddodion Llyn Llech Owain gan fod yr Athro Siwan Davies yn awyddus i gadw'r gwaith fel prosiect PhD i rywun (ni wyddwn ar y pryd mai fi fyddai'r person hwnnw!)

Gweithias fel technegydd am flwyddyn, gan weithio ar

amryw o samplau gan gynnwys rhai morol o Ogledd yr Iwerydd a samplau iâ o'r Ynys Las. Roeddwn yn ddigon ffodus hefyd i gael y cyfle i ymuno â'r grŵp ymchwil ar drip i rewgell (-20 celsiws) arbennig ym Mhrifysgol Copenhagen.

Ym mis Hydref 2013, dechreuais PhD yn Abertawe dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, yn edrych ar newid hinsawdd y cyfnod

ôl-rhwelifol (rhwng 15,000 a 8,000 o flynyddoedd yn ôl) yng Nghymru. Erbyn hyn, rydw i tua hanner ffordd trwy fy mlwyddyn gyntaf a gobeithiaf orffen yn 2016.

Bwriad y prosiect yw edrych ar waddodion o Lyn Llech Owain, yr union prosiect a daniodd fy niddordeb mewn teffra pan oeddwn yn gweithio fel technegydd, gan ddadansoddi newidiadau yn y gweddillion llystyfiant a'r organebau bychain daiatoms sydd wedi eu cadw o fewn y gwaddodion.

Hefyd, byddaf yn edrych ar y newidiadau yn nodweddion geocemegol y gwaddodion, gan ddefnyddio scaniwr XRF ym Mhrifysgol Aberystwyth, (un o'r rhai cyntaf a ddatblygwyd yn y byd). Cynigia'r data geocemegol yma wybodaeth o'r hyn a oedd yn digwydd o amgylch y llyn, hynny yw, os oedd llystyfiant yn bresennol neu os oedd y llethrau o amgylch y llyn wedi'u herydu. Byddaf hefyd yn defnyddio lludw folcanig i ddarganfod pa mor gyflym y digwyddodd y newidiadau hinsoddol.

Os hoffech wybodaeth bellach am ludw folcanig, dyma linc i fideo sy'n cynnig cipolwg o'r gwaith sy'n cael ei gyflawni gan y grŵp ymchwil yn Abertawe – <https://www.youtube.com/watch?v=uBkVgLC8WF4>.

## Rehoboth, Taliesin


Cafwyd prynhawn diddorol ac addysgiadol yn festri Rehoboth, Taliesin, ar brynawn Mawrth, 14 Ionawr, pan groesawyd Carwen Fychan, Aberystwyth, atom i sôn am enwau strydoedd y dref.

Gwnaeth Carwen lawer o ymchwil i hanes y dref, a chawsom ganddi eglurhad pam mai Aberystwyth yn hytrach nag Aber-rheidol yw enw'r dref: sefydlwyd castell cyntaf y dref ger Tan-y-bwlch lle llifa'r afon Ystwyth i'r môr, ac yn naturiol felly enwyd y dref yn Aberystwyth gan mai yno'r oedd aber yr afon Ystwyth.

Yn 1277 adeiladwyd y castell presennol a symudodd safle'r dref o Dan-y-bwlch i'r safle hwnnw, ac am ganrifoedd dim ond ychydig o dai oedd o fewn muriau'r dref gan fod yno gaeau a thir pori i'r anifeiliaid yn ogystal.

Tyfodd y dref yn sylweddol gyda dyfodiad y rheilffordd o Fachynlleth yn 1864, a daeth yn lle poblogaidd ar gyfer twristiaid. Pwysleisiodd Carwen bwysigrwydd cofnodi'r hen enwau ar strydoedd, tai ac adeiladau'r dref fel nad ânt yn angof. Diolchwyd i Carwen gan Myfanwy Rowlands. Ann Jenkins, Margaret Jones a Tegwen Jones oedd yng ngofal y te a fwynhawyd ar y diwedd.

argraffu da  
am bris da



**Y Lolfa**

holwch Paul am bris ar [paul@yloffa.com](mailto:paul@yloffa.com)  
01970 832 304 [www.yloffa.com](http://www.yloffa.com)



# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

Adroddiad o'r prif faterion a drafodwyd yng nghyfarfod mis Ionawr.

## Cais Cyfyngu Cyflymder ar ffordd C1133

Derbyniwyd ateb i'r llythyr a anfonwyd at yr Adran Prifffyrdd yn cefnogi'r ddeiseb yn gofyn am arwyddion arafu traffig ar y ffordd gefn o'r Llew Du heibio ffordd Penpompren. Mae moratorium ar hyn o bryd ar bob cyfyngiad cyflymder newydd gan fod yr Awdurdod wrthi'n cynnal arolwg o bob cyfyngiad yn dilyn cais gan Lywodraeth Cymru. Y bwriad yw cwblhau'r arolwg erbyn diwedd 2014, ond am nad oes adnoddau ychwanegol wedi eu clustnodi at y gwaith, gall gweithredu unrhyw benderfyniad a wneir ymestyn y tu hwnt i ddiwedd y flwyddyn.

### Mainc Gyhoeddus Bont-goch

Adroddodd y Cyngorydd Emyr Davies bod John Evans bellach wedi peintio a gosod y fainc yn ei lle.

### Goleuadau Nadolig

Ysgrifennodd y cyn-glenc air o ddiolch ar ran y Cyngor at yr Ysgol, Falyri Jenkins a Ieuan Morgan. Danfonwyd llythyr at Tom Edwards, y trydanwr, hefyd yn gofyn iddo anfon bil ymlaen at y Cyngor am y gwaith o osod y goleuadau a hynny cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Estynodd y Cadeirydd, Enoc Jenkins, air o ddiolch i bawb a fu'n helpu gyda'r trefniadau, ac yn arbennig i'r Cyngorwyr Glenys Edwards ac Ellen ap Gwynn.

### Cyfyngu Cyflymdra Maes y Deri

Derbyniwyd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn adroddiad gan PC Jonathan James. Ymwelodd PC James ag un o drigolion Maes y Deri oedd yn pryderu am or-yrru ar yr ystâd. Ar hyn o bryd, y cyfyngiad cyflymder yno yw 30mya. Esboniodd wrth yr heddlu y byddai'n mynd ati i greu petisiwn er mwyn i drigolion eraill sy'n rhannu'r un gofod ei arwyddo. Danfonodd y Cyngorydd Ellen ap Gwynn y neges ymlaen at y Gwasanaeth Prifffyrdd, ac ymatebodd y byddai'r ystad yn cael ei gynnwys yn yr adolygiad cyflymdra drwy'r sir.

### Lampau Stryd Bont-goch

Adroddodd y Cyngorydd

Emyr Davies nad oedd y lamp stryd ger mynedfa Gwaith Dŵr Bont-goch yn gweithio o hyd; nodwyd hefyd nad oedd y tyfiant o flaen y lamp stryd ger y bont yn Bont-goch (sy'n cuddio'r golau) wedi'i docio. Cytunwyd i ail-ysgrifennu at y Cyngor Sir ynglŷn â'r lampau hyn.

### Cyngor Sir Ceredigion: Coed am Ddim

Mae gan Cyngor Sir Ceredigion 500 coeden i'w cyflwyno i ysgolion, cynghorau cymuned a grwpiau cymunedol y sir. Cymysgedd o goed brodorol ydynt wedi'u dethol i fod yn fuddiol i bryfetach sy'n peillio, gan gynnwys gwenyn, cacwn, gwenyn meirch a gwyfynod. Cytunwyd i drafod y mater eto yn y cyfarfod nesaf er mwyn rhoi amser i hel syniadau.

### Cyngor Sir Ceredigion: Adolygiad o'r Gorchymynion Rheoleiddio Traffig (Parcio)

Gwahoddiad i Gynghorau Tref a Chymuned i gyflwyno ceisiadau am newidiadau yn cyfyngiadau parcio [h.y. llinellau melyn] i gael eu hystyried gan Swyddogion y Cyngor Sir fel rhan o adolygiad maent yn ei gynnal ledled y Sir. Rhaid i'r ceisiadau gyrraedd y Cyngor Sir erbyn 14 Chwefror. Cytunwyd i ysgrifennu at y Cyngor Sir, gan dynnu ei sylw at yr ardaloedd ganlynol: y wal wrth ymyl y patsyn glas; y troad oddi ar y stryd fawr sy'n arwain at Eglwys Dewi Sant a Dol Pistyll; ag ystyriaeth o gyfyngiad amser wrth yml Siop Spar.

### Cymorthdaliadau 2013/14

Derbyniwyd argymhellion yr Is-bwyllgor Ariannol i ddosbarthu cyfanswm o £3,150 mewn grantiau rhwng y cymdeithasau a'r clybiau lleol canlynol: Y Neuadd Goffa; Cylch Meithrin; Cymdeithas Maes Chwarae'r Odyn Galch; Cymdeithas Papur Pawb; Clwb Pêl-droed; Clwb Pysgota; Sefydliad y Merched; Clwb Pêl-droed Ieuencid; Clwb Ffermwyr Ieuainc a Ffrindiau Cartref Tregerddan. Hefyd cytunwyd i rannu £515 rhwng pum elusen/cymdeithas yng Ngheredigion, sef, Cyngor ar Bopeth Ceredigion; Urdd Gobaith Cymru; Ray Ceredigion; Gwyl Cerdd Dant Ystrad Fflur; a Cruse Ceredigion. Yn ogystal, rhannwyd £350 rhwng 6 elusen cenedlaethol.

# Y Gair Olaf



Faint ohonoch chi sy'n gwyllo'r gyfres Dibandraw? Rhaid dweud fy mod i wedi cael cryn flas ar ddysgu am gyfraniad gwyddonwyr o Gymru mewn gwahanol feysydd. Gwaith y labordy ymchwil yn Cern ger Genefa, lle mae'r arbrawf mwyaf yn y byd yn digwydd, oedd pwnc dwy o'r rhaglenni. Yma mae gwyddonwyr yn ceisio ateb y cwestiwn oesol – sut dechreuodd y bydysawd? – drwy geisio ail greu'r glec fawr mewn twnnel anferth tanddaearol. Cawsom ein tywys i berfeddion y twnnel gan Dr Rhodri Jones un o sawl Cymro Cymraeg sydd a rôl allweddol yn llwyddiant y project, lle'r esboniodd hanfodion yr arbrawf. Mewn rhaglen arall rhoddwyd sylw i waith yr Athro Siwan Davies a'i thim o Brifysgol Abertawe (yn eu plith Gwydion Jones Gellimanwydd) sy'n ymchwilio i ludw folcanig mewn mwd o losgfynddoedd er mwyn canfod atebion pwysig ynglŷn â newid hinsawdd – pwnc perthnasol iawn ar hyn o bryd! Braf oedd cael eglurhad ar destunau cymhleth mewn Cymraeg clir a chroyw.

Piti na fase'r Aelod Seneddol Michael Fabricant yn cael cyfle i weld y gyfres ddiddorol hon oherwydd ar Any Questions yn ddiweddar honnodd bod yr iaith Gymraeg yn lyffethair ar addysg yng Nghymru. Pa obaith meddai oedd medru cynhyrchu athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth ardderchog os oedd rhaid iddynt hefyd fod yn medru dysgu drwy'r Gymraeg! O'r fath anwybodaeth! Tristach fyth oedd clywed Cymraes yn y gynulleidfa yn ei amenio.

Un peth sy'n sicr chafodd y Gymraeg ddim effaith negyddol o gwbl ar allu'r gwyddonwyr ar Dibandraw i serennu yn eu gwahanol feysydd ar lefel genedlaethol a rhyngwladol.

Eirian Evans

## Cymdeithas Treialon Cŵn Defaid

Ar noson olaf Ionawr daeth naw ar hugain o aelodau'r pwyllgor a ffrindiau at ei gilydd yn y Llew Du i ginio blynyddol y gymdeithas. Roedd pawb wedi dewis ymlaenllaw o fwydlen eang a mwynhawyd bwyd blasus iawn.

Wedi'r gwledda, eisteddodd pawb i weld fideo, wedi ei pharatoi gan Ann Jenkins, o rali y ffermwyr ieuanc o 1993 a gynhaliwyd ar Fferm Berthlwyd.

Difyr oedd gweld y newidiadau dros yr amser - ambell wyneb wedi dal treigl y blynyddoedd yn well nac arall ac ambell ben gwalltog wedi newid dipyn. Gwelwyd nifer o hen wynebau sydd bellach wedi

ein gadael - yn arbenig Evan Owen Jones, Berthlwyd a Gwyn Royle a oedd yn llywydd y dydd. Gwrandawyd ar araith bwrpasol iawn gan Gwyn yn olrhain hanes y clwb o'r dechrau. Ond hefyd roedd ambell blentyn a baban yn y lluniau sydd nawr yn dal swydd ac yn chwarae rhan allweddol ym mharhad y clwb. Roedd y llinell "ond bugeiliaid newydd sydd ar yr hen fynyddoedd hyn" yn dod i'r côf.

Wedi'r gwledda diolchodd y cadeirydd, Dilwyn Evans Tynant i staff y Llew Du am ginio ardderchog ac i Ann am y fideo ddiddorol. Wedi tipyn rhagor o sgwrsio aeth pawb adref wedi cael noson wrth eu bodd.

**STORFA  
CARTREF a BUSNES**

**Storio Hyblyg Diogel**

*Ystafelloedd storio i siwtio eich gofynion*

**TCC a Monitro Diogelwch 24 Awr**

**Wedi Gynhesu**

**Ar Werth**

Bocsys, Bwrlwm Lapio a deunydd pacio

Ymwelwch â'r siop arlein

[www.boxshopsupplies.co.uk](http://www.boxshopsupplies.co.uk)

[www.midwalesstorage.co.uk](http://www.midwalesstorage.co.uk)

Ffôn—01654 703592

# CHWARAEON

## Rhedeg Marathon Llundain

Ar 13 Ebrill bydd un o ferched Tal-y-bont yn rhedeg ym Marathon Llundain, gyda'r nod o godi arian ar gyfer yr elusennau Y Gymdeithas Strôc a Thy Hafan. Dyma fydd y tro cyntaf i Elaine Rowlands, Maes-y-felin, i redeg marathôn, er ei bod wedi rhedeg hanner marathôn ar sawl achlysur.



system tynnu tocyn, a bydd hi ymhlith y 36,000 o redwyr o bedwar ban byd fydd yn ceisio gorffen y ras 26 milltir a 385 llathen - tipyn o orchest.

Penderfynodd Elaine gefnogi elusen Y Gymdeithas Strôc, gan fod aelodau o'i theulu a ffrindiau wedi dioddef o'r salwch ac, ar argymhelliad ei chyfaill Bridget James, mam Elain, y ferch fach leol sy'n dioddef o glefyd difrifol, y penderfynodd gefnogi Tŷ Hafan, yr hosbis i blant.

Mae modd i chwi, ddarllenwyr Papur Pawb, gefnogi'r elusennau hyn drwy nodd Elaine. Mae blwch casglu yn Salon Leri, dan ofal merch Elaine, Lowri, ac mae modd cefnogi ar lein ar y wefan hon: <http://uk.virginmoneygiving.com/ElaineRowlands>

Pob lwc i Elaine ar y diwrnod mawr. Bydd ei theulu yno yn ei chefnogi ac edrychwn ymlaen at adrodd yn rhifyn Mai o'r papur ei bod wedi llwyddo yn ei nod.

### Cofiwch ymweld â gwefan Papur Pawb

Gwybodaeth am y papur, ei hanes a manylion cysylltu

#### Hefyd:

- Papur Pawb Sain - i'r rhai sydd â golwg diffygol
- Tabl amseroedd bysiau yn yr ardal
- Ôl rifynnau'r papur

Trwydded y mlynedd hon gan Anthony Motors Volkswagen

[papurpawb.com](http://papurpawb.com)

Dechreuodd Elaine dreulio'i hamser hamdden yn rhedeg er mwyn cadw'n heini tua wyth mlynedd yn ôl, pan oedd yn ei thriedegau. Ers hynny mae wedi rhedeg hanner marathôn Caerdydd, Llyn Efyrynwy, Caer a Chonwy. Llynedd ymunodd â Chlwb Athletau Aberystwyth, ac mae bellach yn ymarfer drwy redeg pellter o 16 milltir ar y tro (a chyfanswm o 30-35 milltir yr wythnos), gan adeiladu'i ffitrwydd ar gyfer diwrnod mawr ym mis Ebrill. Bydd hefyd yn rhedeg ras 20 milltir yn Rheadr ar 8 Mawrth.

Enillodd Elaine ei lle ym Marathon Llundain drwy



Anthony a Marc, y cyd-reolwyr llwyddiannus

## HYDER YN UCHEL

Gyda'r gêm hollbwysig yn Aberdyfi wedi'i ohirio oherwydd y tywydd garw, cafodd bechgyn clwb pêl-droed Tal-y-bont ddiwrnod rhydd i wyluo'r gêm rygbi rhwng Cymru â'r Iwerddon ar ddydd Sadwrn 8 Chwefror. Rhoddodd gyfle hefyd i ohebydd chwaraeon Papur Pawb i fentro i'r dafarn i holi'r cyd-reolwyr, Anthony Southgate a Marc Richards, am y rhagolygon am weddill y tymor.

Gyda Thal-y-bont yn eistedd yn gyfforddus ar frig y tabl, wedi buddugoliaethau swmpus yn erbyn Aberdyfi (7-1) a Padarn United (6-3), y cwestiwn cyntaf amlwg oedd: 'A ydy Tal-y-bont yn si r o ennill pencampwriaeth yr ail adran?' Roedd agwedd y ddau yn wahanol gydag Anthony yn dweud 'ry ni heb ennill dim eto' ond Marc yn ymateb yn fwy hyderus: 'bron a bod'. Mae'n wir fod gan Dal-y-bont dair gêm anodd i ddod, bant yn Aberdyfi a dwy gêm yn erbyn Trydydd Tim y Coleg, ond mae'n anodd gweld y clwb yn methu.

Gobeithia'r rheolwyr y gall y bechgyn hefyd ennill un o'r cwpanau, yn arbennig cwpan yr ail adran, er mwyn profi eu goruchafiaeth. Pan holwyd beth oedd y gwahaniaeth eleni, o ystyried y gyfres o dymhorau llwm a gafwyd yn y blynyddoedd diwethaf, daeth yr ateb: 'chwaraewyr gwell'. Pwysleisiwyd bod pob un o'r chwaraewyr yn bêl-droedwyr naturiol sy'n gyfforddus ar y bêl a bod ganddynt y gallu i greu cyfleoedd da ym mhob gêm a sgorio'n gyson. Y canlyniad yw rhwydo 64 o weithiau yn y cynghrair hyd yn hyn.

Y gêm nesaf, ar 15 Chwefror, fydd oddi cartref yn erbyn Eilyddion Borth yng nghystadlueaeth Tlws Coffa Len a Julia Newman. Yna daw'r lap gyffrous olaf yn y ras am y bencampwriaeth!

## Galw Penweddig

Fel rhan o ddathliad Ysgol Penweddig yn ddeugain oed, mae Amgueddfa Ceredigion wedi cytuno'n garedig i gynnal arddangosfa o eitemau Penweddig o'r gorffennol; lluniau, gwisg, gwobrau ac unrhyw beth arall o ddiddordeb, yn eu casys gwydr yn y Gwanwyn. Bydd manylion pellach yn dilyn, ond os hoffech fenthyg eitem i'w harddangos, cysylltwch â Mark Watkins ym Mhenweddig ar (01970) 639499 neu ymholiadau@penweddig.ceredigion.sch.uk. Mae croeso i chi gadw eitemau yn ddiogel yn yr ysgol nes i'r arddangosfa agor.

## GOLCHDY LLANBADARN

CYTUNDEB GOLCHI  
GWASANAETH GOLCHI  
DWFES MAWR  
CITS CHWARAEON

GERAINT JAMES  
Ffôn: 01970 612459  
Mob: 07967235687

Valrosan, Pwllhobi, Llanbadarn Fawr,  
Aberystwyth SY23 3SL

